11 Ionawr 2017

Annwyl gydweithiwr,

Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru gynnig i ddatblygu cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda chyrff dyfarnu, cyflogwyr/cyrff cyflogwr a rhanddeiliaid eraill (yn cynnwys athrawon, darlithwyr a hyfforddwyr sy'n seiliedig ar waith sy'n cyflwyno'r cymwysterau ar hyn o bryd) i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, i'w dysgu i ddysgwyr 14 oed a hyn ledled Cymru o 1 Medi 2019. Yn unol â'r awgrymiadau o'n Hadolygiad yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, bydd y gyfres newydd o gymwysterau yn lleihau cymhlethdod, gwella ansawdd a chydlyniaeth ar gyfer y sector. Gallwch ddod o hyd i ddolenni i ddogfennau sy'n berthnasol i'r camau amrywiol o'r ar y tudalennau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar ein gwefan.

Bydd y cymwysterau newydd yn Gymwysterau Cymeradwy Cyfyngedig. Mae hyn yn golygu mai rhain fydd yr unig fersiynau o'r cymwysterau hyn a fydd yn ymddangos ar QiW [cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru] fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cyllid ar raglenni dysgu wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol. O fis Medi 2019, dyma'r cymwysterau a fydd yn ymddangos mewn fframweithiau prentisiaeth i ddysgwyr o bob oedran sy'n cyflawni prentisiaethau perthnasol. Bydd y cymwysterau cyfredol yn parhau i gael eu hariannu hyd y pwynt hwn; bydd cyfnod pontio hefyd i alluogi dysgwyr sydd eisioes yn cyflawni cymwysterau i gael eu hariannu i gwblhau eu cymwysterau.

Byddwn yn comisiynu un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu un fersiwn o bob cymhwyster, drwy broses o gystadleuaeth deg, agored a thryloyw. Rhwng nawr a mis Medi 2017, byddwn yn tendro am gontractau ac yn eu dyfarnu i gyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd. Caiff y cymwysterau hyn eu cymeradwyo i'w haddysgu o 1 Medi 2019; o hydref 2018, bydd y cyrff dyfarnu llwyddiannus yn cynnig hyfforddiant ac adnoddau cymorth i bob canolfan.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Dim ond y dysgwyr hynny sy'n cofrestru i astudio ar neu ar ôl 1 Medi 2019 a fydd yn gallu astudio'r cymwysterau newydd. Bydd y cymwysterau newydd yn disodli nifer o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, sydd eisioes yn bodoli, a restrir ar ein gwefan.

O Medi 2019, gall y datblygiad o'r cymwysterau newydd hyn effeithio arnoch yn y ffyrdd canlynol:

- Efallai na fydd y cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant rydych yn eu cyflwyno ar hyn o bryd yn gymwys mwyach am gyllid cyhoeddus (heblaw am ddysgwyr sydd hanner ffordd drwy eu cymwysterau);
- Gall y corff dyfarnu sy'n cyflwyno eich cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newid, sy'n golygu efallai y bydd angen i chi weithio gyda dau neu fwy o gyrff dyfarnu efallai ar draws y gyfres (gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r corff dyfarnu sy'n ennill y contract i ddatblygu cymwysterau Gofal Plant yn wahanol i'r corff dyfarnu sy'n datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac rydych yn cynnig cymwysterau yn y ddau bwnc);
- Gall cynnwys y pwnc, strwythur a maint y cymwysterau newydd fod yn wahanol i'r rhai rydych yn eu defnyddio ar hyn o bryd;
- Gall dilysu allanol a'r cydbwysedd rhwng asesiad mewnol ac allanol newid;
- Gall cofrestru fel rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol gyda Cyngor Gofal Cymru (a fydd yn newid yn fuan i Gofal Cymdeithasol Cymru) yn y dyfodol ofyn i ddysgwyr ôl-16 gwblhau cymhwyster sefydlu. Bydd y cymhwyster sefydlu yn rhan o'r gyfres hon o gymwysterau.
- Efallai na chaiff cymwysterau ac unedau sy'n bodoli eisoes eu disodli.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant hyn, byddwn yn rhoi diweddariadau pellach i bob canolfan drwy ein cylchlythyron; byddwn hefyd yn cynnig digwyddiadau i egluro datblygiad y cymwysterau newydd.

Bydd cyfleoedd i roi adborth ar fersiynau drafft y cymwysterau wrth iddynt gael eu datblygu. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach am amserlen datblygu'r cymwysterau newydd neu sut gall y newid effeithio arnoch chi, cyfeiriwch at ein tudalennau ymroddedig Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar ein gwefan. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau na chaiff eu hateb yma, e-bostiwch ein tîm Datblygu a Chomisiynu ar adolygiadiechydgofal@cymwysteraucymru.org.

Gweler isod amserlen fer o gamau datblygu a chomisiynu y cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd i'ch helpu i ddychmygu'r broses:



Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr